

Dilynwch Ben i gael noson tân gwyllt ddiogel



Cofiwch
eich menig.

Mae Ben wrth ei fodd ar noson tân gwyllt.

I sicrhau ei fod yn ddiogel bob blwyddyn, mae'n
dilyn y **Cod Tân Gwyllt**.

BIS

Department for Business
Innovation & Skills

Bydd tân gwyllt yn dychryn eich anifeiliaid anwes, felly cadwch nhw'n ddiogel yn y tŷ.

Dim ond oedolion ddylai gynnau tân gwyllt a gafael ynddo.

Dim ond oedolion ddylai drafod tân gwyllt a'u cynnau.

Os byddwch yn cael ffon wreichion, gwisgwch fenig bob tro. Daliwch ffyn gwreichion hyd eich braich bob tro a pheidiwch â gafael mewn mwy nag un ar y tro.

Peidiwch byth â rhoi ffyn gwreichion i blant o dan bump oed.

Pan fydd ffon wreichion yn diffodd, **PEIDIWCH Â CHYFFWRDD YNDDI.** Fe allai eich llosgi o hyd, felly rhowch y pen poeth mewn bwcedaid o ddŵr.

Rhaid i chi fod yn 18 oed cyn cael prynu tân gwyllt yn y siopau.
Peidiwch byth â chwarae â tân gwyllt.
Mae tân gwyllt yn beryglus ac mae'n gallu eich brifo.

Peidiwch byth â mynd yn agos at dân gwyllt sydd wedi'i gynnau. Hyd yn oed os nad yw wedi tanio, fe allai ffrwydro o hyd.

Cod Tân Gwyllt i Oedolion

- Dim ond tân gwyllt wedi'i farcio â BS 7114 y dylech ei brynu.
- Peidiwch ag yfed alcohol os ydych yn cynnau tân gwyllt.
- Cadwch y tân gwyllt mewn bocs wedi'i gau.
- Dilynwch y cyfarwyddiadau ar bob tân gwyllt.
- Cyneuwch dân gwyllt hyd braich i ffwrdd, gan ddefnyddio tapr.
- Sefwch yn ddigon pell yn ôl.
- Peidiwch byth â mynd yn agos at dân gwyllt sydd wedi'i gynnu.
- Hyd yn oed os nad yw wedi tanio, fe allai ffrwydro o hyd.
- Peidiwch byth â rhoi tân gwyllt yn eich poced na'i daflu.
- Goruchwylwch blant o amgylch tân gwyllt bob amser.
- Cyneuwch un ffon wreichion ar y tro a chofiwch wisgo menig.
- Peidiwch byth â rhoi ffyn gwreichion i blant o dan bump oed.
- Cadwch eich anifeiliaid anwes yn y tŷ.
- Ni ddylech gynnu tân gwyllt swnllyd ar ôl 11pm

www.direct.gov.uk/fireworks

